

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Gorffennaf 6ed, 2017 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Naomi Jones; Angela Williams; Aled Davies; Ceri Jones; Tegid Jones a'r Clerc.

Cafwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Marian Evans (Cadeirydd).

1. Dewis Cadeirydd cyfarfod heno yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans. Dedwisiwyd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans.
2. Dewis Is gadeirydd am y flwyddyn 2017/18. Enwebwyd y Cynghorydd Margaret Griffith.
3. Croesawyd y Cyngorwyr newydd: Ceri Jones, Angela Williams, Aled Lloyd Evans (oherwydd i'w bapur enwebu fynd ar goll) a'r Parch. Aled Davies.
4. Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd Is gadeirydd a'r Cyngorwyr newydd a'r Cyngorwyr oedd heb arwyddo sef y Cyngorwyr Sian Angharad Parry a Thomas Prys Jones.
5. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Mynediad Dwyfor. Enwebwyd Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog, y Cynghorydd Margaret Griffith am ofyn iddo.
6. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fehefin 1af, 2017 gydag un cywiriad, cais cynllunio Cyngor Gwynedd rhif 10.1 ar y rhaglen waith, Morawel ydi enw'r tŷ, nid Morwel.
7. Arwyddwyd cadarnhad taliad BACS gan y Cadeirydd.
8. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
9. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
10. Seddau gwag ar y Cyngor; Ward Llanystumdwy, 2 sedd; angen cyfethol. Penderfynwyd cyfethol Mr Sion Aled Jones, Dolafon, Llanystumdwy a gadael un sedd yn wag ar hyn o bryd.
11. Cyngor Gwynedd.
 1. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; gwaith adfer angenrheidiol i'r A499 pentref Y Ffôr. Derbyniwyd er gwybodaeth.
 2. Tim Teithio Llesol Cyngor Gwynedd, ymgynghoriad cyhoeddus. Penderfynwyd rhoi hwn ar raglen mis Medi.
 3. Ymgynghoriaeth Gwynedd; y bont ar ffordd osgoi Llanystumdwy. Derbyniwyd yr ateb bod gwaith cynnal a chadw am ei ymgymryd gan y tim cynnal a chadw a bod archwiliad ar y bont yn dangos ei bod mewn cyflwr da gyda dim problemau strwythurol.
 4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Gorffennaf 2017. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth bod gwaith arwisgo Castellcoed – Llanarmon. Mae tyfiant angen ei farbio ochr y Ffôr Groeslon Castellcoed ac mae carreg wedi'i thynnu o'r clawdd rhwng tro Rynys a Ty'n Gors yn dilyn barbio diweddar. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynghylch hyn.
 5. Cynllun Llesiant; gwahoddiad gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Mae cyfres o sesiynau yn cael eu trefnu yn ystod mis Awst ac os oes unrhyw un o'r Cyngorwyr awydd mynychu iddynt gysylltu gyda'r Clerc iddo gael gwneud y trefniadau.
12. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:
 1. Cais Rhif: C17/0565/41/LL – Cais i godi tŷ deulawr farchnad agored; tir at Bro Sion Wyn, Chwilog. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais yma ar sail maint y tŷ, oni

fyddai codi dau dŷ llai i'w gosod yn fwy addas? Yn ogystal penderfynwyd ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd i fynegi siom eu bod yn defnyddio asiant o'r tu allan i Gymru ac o'r herwydd yn torri eu polisi iaith eu hunain.

2. Cais Rhif: C17/0597/41/RC – Cais i ddiddymu cytundeb 106; Cwm Bach, Llanarmon. Penderfynwyd bod dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

3. Cais Rhif: C17/0492/41/LL – Cais llawn ol-weithredol ar gyfer cynllun diwygiedig (caniatad gwreiddiol cyfeirnod C14/0045/41/LL) i drosi adeilad amaethyddol traddodiadol yn uned gwyliau hunan gynhaliol; Ty'n Lon Isaf, Llangybi. Penderfynwyd cefnogi.

4. Cais Rhif: C17/0632/41/LL – Codi estyniad blaen ar yr eiddo; Ty'n Lon Uchaf, Llangybi. Cefnogwyd y cais yma.

13. Un Llais Cymru:

a. Dyddiadau Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Penderfynwyd cysylltu i ddweud bod unrhyw noson heblaw nos lau yn ffafriol gan y Cyngor yma.

b. Cwrs Cod Ymddygiad yng Nghaernarfon, nos lau Gorffennaf 27ain. Os oes unrhyw un awydd mynd ar y cwrs yma i gysylltu gyda'r Clerc iddo gael gwneud y trefniadau.

14. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Maes parcio Llanystumdwy. Cafwyd cwyn bod y maes parcio yn flêr gyda chwyn a gordyfiant mieri. Penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

Rhoslan

a. Gwelediad ar bont Rhydybenllig_gordyfiant coed yn creu perygl i deithwyr. Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

b. Trethdalwr wedi tynnu sylw fod Gwinllan Rhos Ddu bellach wedi ei gwerthu yn bedwar darn. Yn ol a ddeallaf mae cabanau pren wedi eu codi ar rai o'r darnau tir a tholedau eco/gwyrdd. Oes angen hawl cynllunio i rhain?

Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd.

Chwilog

Y gwrych heibio talcen siop y cigydd am dai Bro Sion Wyn yn Chwilog_Yn dilyn cwyn gan drethdalwr cysylltwyd gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd i ofyn iddynt dorri'r gwrych. Maent wedi gwneud hynny erbyn hyn.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Elusen Tai Charles Jones, Llangybi yn awyddus i gael cynrychiolydd o'r Cyngor yma ar eu pwyllgor. Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Angela Williams, Rhos Helyg, Llangybi, y Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen.

15. Elusen William Ellis, Llanystumdwy.

Roedd y Clerc yn awyddus i gael cofnod bod yr arian sydd wedi ei fuddsoddi mewn Stoc y Llywodraeth yn aeddfedu ym mis Awst 2017 ac y bydd yr ymddiriedolwyr, sef Cynghorwyr Ward Llanystumdwy, yn cyfarfod yn fuan i drafod sut i fuddsoddi'r arian ymlaen. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Materion Ariannol

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhoddodd y Clerc adroddiad lawn ar lafar, bod y gwariant o fewn y gyllideb, nad oes perygl o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled. Adroddodd ymhellach ei fod wedi gwneud cais am ad daliad TAW am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2017 ac nad yw Mr Clifford Hughes wedi

cyflwyno anfoneb am dorri gwellt Cae Chwarae Llangybi ddwy waith hyd yma.
Derbyniwyd.

17. Anfonebau angen eu talu:

- a. Criccieth Cleaning Ltd., torri llwybr am Garn Bentyrch, gyferbyn â cheg lôn Abercin a thoriad cyntaf llwybrau Ynysgain Bach, Ty Newydd ac Afonwen; £255.23c + TAW = £306.28c; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: 1527.
- b. Atkin Groundworks Ltd., Toriad cyntaf llwybr Clawdd Llanw, Bontfechan; £135- + TAW = £162-; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod : 1001534.
- c. Richard Hubbard, Ty'n Llwyn, Llannor; chwistrellu canclwm Siapaneaidd ar dir y Cyngor ger pont pentref Llanystumdwy; £40-; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: 02/06/2017.
- ch. Capel MC Pencaenewydd; defnydd o'r festri ar gyfer cyfarfodydd mis Ebrill, Mai a Mehefin y Cyngor; £45-; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: 17/06/2017.
- d. Cyllid a Thollau EM, treth ar enillion y Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2017; £188.40c; taliad siec rhif 100959. Penderfynwyd ei dalu.
- dd. Cyflog y Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2017; 30 awr x 3 mis x £10.467c yr awr = £942- gross, tynnu £188.40c treth, net £753.60c; taliad siec rhif 100960. Penderfynwyd ei dalu.
- e. Costau'r Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2017; £223.32c; taliad siec rhif 100961. Penderfynwyd ei dalu.

18. Caniatâd i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Penderfynwyd rhoi caniatâd.

20. Caniatâd i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Penderfynwyd rhoi caniatâd

21. Pwyllgorau'r Cyngor.

Enwebwyd fel a ganlyn:

Pwyllgor Cynllun Busnes: y Cynghorwyr Anwen Jones, Marian Evans, Tegid Jones, Aled Davies ac Aled Lloyd Evans.

Pwyllgor Safle'r We: y Cynghorwyr Anwen Jones, Naomi Jones a Ceri Jones.

Pwyllgor Polisiau a Rheolau Sefydlog: y Cynghorwyr Trefor W Jones, Angela Williams, Margaret Griffith a Thomas Prys Jones.

Pwyllgor Amodau Gwaith: y Cynghorwyr Thomas Prys Jones, William Ifor Hughes, Trefor W Jones, Anwen Jones a Chadeirydd y Cyngor.

Nid yw'r Cynghorydd Sian Angharad Parry ar yr un o'r pwyllgorau a bydd angen lleoli Mr Sion Aled Jones ar bwyllgor/au ar ôl iddo ddod yn aelod o'r Cyngor ym mis Medi.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.

